OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 999

# Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad-cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000.

## RHAN VI

*DARPARIAETHAU EITHRIO*

### Ymchwilio i gŵynion gan Gomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd

**11.** Gellir ymchwilio i gŵyn a wnaed i Gomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd dros Gymru o dan Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993(**1**) mewn perthynas â chyn-aelodau practis deiliad-cronfa p'un a wnaed y gŵyn cyn diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa neu wedi hynny, neu os na chwblhawyd y mater, bydd yr ymchwiliad yn parhau gan y Comisiynydd hwnnw yn unol â'r Ddeddf honno fel pe bai effaith adran 3(1B) o'r Ddeddf honno yn parhau.

### Ymchwilio i gŵynion eraill

**12.** Bydd y drefn ymchwilio i gynion a sefydlwyd o dan baragraff 47A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**2**) ac a weithredir odanynt yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gŵ yn ynglŷn â defnydd y swm dynodedig gan gyn-aelodau practis deiliad-cronfa, p'un a'i a wnaed y gŵ yn cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, neu ar y dyddiad y daw i rym neu wedi hynny, ac, er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa, bydd cyn-aelodau'r practis deiliad-cronfa'n cydweithredu â'r ymchwiliad i'r gŵyn gan yr Awdurdod Iechyd yn ôl gofynion paragraff 47B o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny.

### Adennill cyfraniad at y swm dynodedig

**13.** Pan oedd hawl gan Awdurdod Iechyd, cyn 1 Ebrill 2000, i adennill cyfran o daliad gan Awdurdod Iechyd arall o dan adran 15(4) o Ddeddf 1990(**3**), er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa bydd hawl gan yr Awdurdod Iechyd hwnnw i adennill y swm hwnnw yn unol â'r adran honno ac yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol; ac at ddibenion adennill o'r fath bydd adran 15(4) o Deddf 1990 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai wedi'i diddymu.

(**1**) Deddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd (p.46) ("Deddf 1993"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd (Diwygio) 1996 (p.5). Hepgorwyd cyfeiriad at adran 3(1B) o Ddeddf 1993 gan Ddeddf Iechyd 1999, Adran 65(1) ac Atodlen 4, paragraff 85 fel y doed â hi i rym gan Orchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000 (OS. 2000/1026 (Cy.62) (c.26)).

(**2**) O.S. 1992/635. Mewnosodwyd paragraffau 47A a 47B gan O.S. 1996/702, rheoliad 5.

(**3**) Amnewidiwyd adran 15(4) o Ddeddf 1990 gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), Atodlen 1, paragraff 74(d) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997, Atodlen 2, paragraff 65(5).

### Amrywio a phenderfynu'r swm dynodedig

**14.**—(1) Bydd y drefn ar gyfer amrywio swm dynodedig a arfaethir o dan baragraffau (4A) i (4C) o reoliad 18 o Reoliadau 1996(**4**)) yn gymwys, er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa, i'r swm dynodedig a arfaethir am y flwyddyn ariannol 1999 – 2000.

(2) Bydd y drefn ar gyfer penderfynu swm dynodedig o dan baragraff (5) a (6) o reoliad 18 o Reoliadau 1996(**5**) yn gymwys i'r swm dynodedig a gafodd ei amrywio ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999 – 2000, er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), bydd paragraff (4A) i (6) o reoliad 18 o Reoliadau 1996 yn parhau yn gymwys fel pe na bai'r darpariaethau deiliad-cronfa wedi'u diddymu.

### Ceisiadau heb eu cwblhau ynglŷn ag arbedion

**15.**—(1) Bydd unrhyw geisiadau a wnaed cyn 1 Ebrill 2000 i'r Awdurdod Iechyd i ddefnyddio'r swm dynodedig ar gyfer diben a bennwyd yn rheoliad 25(2) o Reoliadau 1996 er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa yn cael eu penderfynu gan yr Awdurdod Iechyd, a bydd y penderfyniad hwnnw'n ddarostyngedig i hawl apêl, yn unol â rheoliad 25(**6**).

(2) Bydd unrhyw apêl a wnaed cyn 1 Ebrill 2000 i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu pan fo'r hawl i apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn codi ar 1 Ebrill 2000 neu wedi hynny, yn erbyn gwrthodiad yr Awdurdod Iechyd i gydsynio â defnyddio unrhyw ran o'r swm dynodedig at ddiben a bennwyd yn rheoliad 25(2) o Reoliadau 1996 er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa yn cael ei phenderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 25.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), bydd paragraffau (3) i (7) o reoliad 25 o Reoliadau 1996 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai'r darpariaethau deiliad-cronfa wedi'u diddymu.

### Adennill symiau a gamddefnyddiwyd

**16.**—(1) Er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2000 ddefnyddio'r drefn yn rheoliad 26 o Reoliadau 1996(**7**) i benderfynu a gafodd unrhyw ran o'r swm dynodedig ei gamddefnyddio gan gyn-aelodau o bractis deiliad-cronfa a gall yr Awdurdod Iechyd yn unol â'r Rheoliad hwnnw adennill unrhyw swm a ddefnyddwyd a bydd rheoliad 26 o Reoliadau 1996 yn gymwys i'r penderfyniadau hynny fel pe na bai'r darpariaethau deiliad-cronfa wedi'u diddymu.

(2) Bydd paragraff (1) yn gymwys p'un a gychwynnwyd y gweithdrefnau i benderfynu a gafodd swm ei gamddefnyddio neu i adennill y fath swm cyn 1 Ebrill 2000 neu beidio.

(**4**) Mewnosodwyd paragraffau (4A) i (4C) gan O.S. 1997/1678, rheoliad 3(2).
(**5**) Diwygwyd paragraff (5) gan O.S. 1997/1678, rheoliad 3, paragraffau (3) a (4) a mewnosodwyd paragraff (6) ganddo.
(**6**) Diwygwyd rheoliad 25 gan O.S. 1997/747, 1997/1678, 1998/693 a 1999/261.
(**7**) Diwygwyd rheoliad 26 o Reoliadau 1996 gan O.S. 1999/261, rheoliad 24.